CWMNI BRO FFESTINIOG

# CYNNWYS


**CRYNODEB** **3**

**CYFLWYNIAD** **5**

**RHAN 1: GWELEDIGAETH CWMNI BRO FFESTINIOG** **6**

1A. CEFNDIR AC AELODAETH CWMNI BRO FFESTINIOG

1B. SWYDDOGAETH CWMNI BRO FFESTINIOG

1C. CYNLLUNIAU CWMNI BRO FFESTINIOG

1C.1. Datblygiad y Mentrau Presennol

1C.2. Hybu Mentrau Newydd

1C.3. Datblygu Cynlluniau sydd Eisoes ar y Gweill

1C.4. Cydweithio Rhwng Mentrau Cymunedol

1C.5. Cydweithio Rhwng Mentrau Cymunedol, Elusennau, Asiantaethau Gwirfoddol a Chyrff Cyhoeddus a Phreifat

1C.6. Cyfranogiad y Gymuned a Mentergarwch Cymunedol

1C.7. Datblygiad Unigolion a Datblygiad Cymunedol Integredig

1CH. LLYWODRAETHIANT a RHEOLAETH

**RHAN 2: CEFNOGAETH I GWMNI BRO FFESTINIOG** **16**

2A.CEFNOGAETH GYMUNEDOL

2B.CEFNOGAETH WLADWRIAETHOL a SEFYDLIADOL

**RHAN 3: CLORIANNU CWMNI BRO FFESTINIOG** **19**

3A. LLWYDDIANT CWMNI BRO FFESTINIOG

3B. PROBLEMAU A PHOTENSIAL CWMNI BRO FFESTINIOG

3C. ESBONIO LLWYDDIANT CWMNI BRO FFESTINIOG

**RHAN 4: GWERSI CWMNI BRO FFESTINIOG** **25**

**ATODIADAU**

ATODIAD 1. EFFEITHIAU ECONOMAIDD CWMNI BRO FFESTINIOG

ATODIAD 2. SEFYDLIADAU A PHARTNERIAID

ATODIAD 3. CYSWLLT

# CRYNODEB

Roedd Blaenau Ffestiniog yr ail dref fwyaf yng ngogledd Cymru yn 1900 gyda phoblogaeth o tua 13,000 ond wrth i'r diwydiant llechi edwino mwy na hanerwyd y boblogaeth erbyn y flwyddyn 2000. Erbyn heddiw mae Bro Ffestiniog yn un o'r ardaloedd tlotaf yn economaidd ym Mhrydain. Er y dad-ddiwydiannu mae'r etifeddiaeth ddiwylliannol yn goroesi i raddau helaeth ac yn gynsail i'r model o ddatblygu cymunedol a arloesir yn yr ardal heddiw.

Yn ôl pob tebyg mae mwy o fentrau cymdeithasol y pen yn yr ardal nag yn unrhyw le arall yng Nghymru. Mae gweithgareddau amrywiol y mentrau hyn yn cynnwys rhedeg gwestai, siopau, bwytai, canolfan twristiaeth, canolfan hamdden, canolfan celf a chrefft, beicio mynydd, manwerthu, garddwriaeth, darparu rhandiroedd, gwaith addysgol a diwylliannol, opera, gwaith amgylcheddol, hybu arbed ynni, lleihau gwastraff bwyd, ailgylchu, glanhau afonydd, gwaith gydag oedolion gydag anghenion ychwanegol, gwaith gydag ieuenctid yn cynnwys ynglŷn â digartrefedd a dysgu siliau amgylcheddol a chyfryngol.

Daeth 12 o'r mentrau cymdeithasol at ei gilydd i ffurfio rhwydwaith dan faner Cwmni Bro Ffestiniog, sy'n gwmni cymunedol cyfyngedig trwy warant. Mae'n gweithredu yng nghymunedau Blaenau Ffestiniog, Trawsfynydd a Phenrhyndeudraeth a'r pentrefi cyfagos sydd, rhyngddynt, gyda phoblogaeth o tua 8,000. Amcanion y Cwmni yw hybu cydweithrediad rhwng y mentrau, meithrin mentrau cymdeithasol newydd a hefyd gweithio gyda busnesau preifat bach sydd wedi'u hangori yn y gymuned. Hyn i gyd er mwyn datblygiad amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yr ardal.

Rhyngddynt mae aelodau'r Cwmni Bro yn cyflogi tua 150 o bobl. Dengys dadansoddiad diweddar o effeithiau economaidd y mentrau bod canran uchel o'u hincwm yn dod o fasnachu. Ymhellach, dangoswyd bod yr incwm, i raddau helaeth, yn aros a chylchdroi o fewn yr ardal. Am bob punt a dderbynnir fel grantiau neu fenthyciadau mae 98 ceiniog yn cael eu gwario'n lleol, yn bennaf ar gyflogau. Cedwir 53% o'r 1.5 miliwn o bunnau a werir ar gyflogau yn lleol. Mae bron hanner y gwariant ar nwyddau a gwasanaethau yn lleol ac felly'n ailgylchu arian yn yr ardal.

Yn mis Awst 2018 cychwynwyd menter newydd, BROcast Ffestiniog, sef gwasanaeth darlledu cymunedol digidol, gyda'r bwriad o hyrwyddo cyfathrebu rhwng mentrau cymunedol yr ardal a'r gymuned ac oddi mewn i'r gymuned. (Gweler facebook.com/BROcastFfestiniog )

Credir bod y model integredig a chyfannol o ddatblygu cymunedol y mae Cwmni Bro Ffestiniog yn ei arloesi yn cynnig patrwm y gellir ei efelychu gan gymunedau eraill. Bydd Cwmni Bro yn ymateb yn gadarnhaol i wahoddiadau i ymweld ag ardaloedd eraill i esbonio'r hyn a gyflawnwyd ym Mro Ffestiniog ac i drafod potensial cyffredinol y model.

Mae'r model hefyd yn gosod sialens i lywodraeth yng Nghymru i ddatblygu polisïau a chefnogaeth briodol er mwyn hyrwyddo'r model hwn o ddatblygiad cymunedol yn ehangach ledled y wlad.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio gweledigaeth, cefndir, swyddogaeth, cynlluniau a rheolaeth Cwmni Bro Ffestiniog. Trafodir natur y gefnogaeth i'r Cwmni ac i'r mentrau sy'n aelodau o'r Cwmni. Edrychir ar lwyddiannau'r Cwmni Bro yn ogystal â'r anawsterau. Esbonir pam bod y model hwn o ddatblygu cymunedol yn llwyddo ym Mro Ffestiniog. Trafodir potensial y model ar gyfer cymunedau eraill a'r gwersi ar gyfer cyrff cyhoeddus.

# CYFLWYNIAD

Mae Cwmni Bro Ffestiniog yn ddatblygiad hollol arloesol yng Nghymru, sef rhwydwaith o fentrau cymdeithasol llwyddiannus sydd wedi dod at ei gilydd i gydweithio dan faner un cwmni bro. Rhestrir isod y mentrau sy'n aelodau Cwmni Bro.

Antur Stiniog, Barnardos, Cyfeillion Croesor, CellB/Gwallgofiaid, Cwmni Opra Cymru, Deudraeth Cyf, GISDA, Gwesty Seren, Pengwern Cymunedol, Seren, Trawsnewid, Y Dref Werdd, Ysgol y Moelwyn/Canolfan Hamdden Bro Ffestiniog.

Mae disgrifiadau o waith y mentrau cymdeithasol hyn i'w cael yn Rhan 1A dan y teitl, CEFNDIR AC AELODAETH CWMNI BRO FFESTINIOG.

Eisoes mae aelodau Cwmni Bro Ffestiniog wedi cyflawni llawer o ran datblygu'r economi a'r gymdeithas leol o'r gwaelod i fyny. Dechreuwyd adeiladu ar yr hen draddodiad diwylliannol o fentergarwch cymunedol neu, mewn geiriau eraill, y gymuned yn gwneud pethau trosom ein hunain. Mae datblygiad pellach a llwyr wireddu gweledigaeth Cwmni Bro Ffestiniog yn nwylo trigolion yr ardal, i raddau helaeth. Mae hefyd yn dibynnu ar gefnogaeth sefydliadol, gan gynnwys llywodraeth, ar wahanol lefelau, ac asiantaethau, cyrff ac elusennau sydd â chyfrifoldeb i hybu datblygiad ein cymunedau.

Mae Rhan 1 y papur hwn, Gweledigaeth Cwmni Bro Ffestiniog, yn disgrifio'r hyn y mae Cwmni Bro Ffestiniog wedi'i gyflawni, yn rhannu'r weledigaeth ynglŷn â'r ffordd ymlaen a thrafod potensial y Cwmni Bro. Potensial, nid yn unig o ran datblygiad Bro Ffestiniog, ond hefyd fel model o ddatblygu cymunedol integredig y gellir ei efelychu gan gymunedau ar hyd a lled Cymru a thu hwnt.

Mae Rhan 2 y papur hwn yn edrych ar gefnogaeth y gymuned i'r Cwmni Bro a'r gwersi cyffredinol ynglŷn â chefnogaeth yr awdurdodau i'r model hwn o ddatblygiad cymunedol a arloesir ym Mro Ffestiniog. Trafodir sut orau y gallasai cyrff llywodraeth ac asiantaethau perthnasol gefnogi Cwmni Bro Ffestiniog a chyfrannu at wireddu'r weledigaeth ehangach a photensial y math hwn o ddatblygiad ar draws Cymru a thu hwnt.

# RHAN 1

# GWELEDIGAETH CWMNI BRO FFESTINIOG

### 1A.

### CEFNDIR AC AELODAETH CWMNI BRO FFESTINIOG

Mae mwy o fentrau cymdeithasol y pen ym Mro Ffestiniog nag yn unrhyw ran arall o Gymru ac maent yn cynnig ystod o wasanaethau amrywiol sydd o fudd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol, addysgol a diwylliannol. Mae Cwmni Bro Ffestiniog yn ddatblygiad hollol unigryw ac arloesol. Ceir rhai esiamplau o fentrau cymdeithasol yng Nghymru yn cydweithio i ffurfio consortia, er enghraifft ar gyfer tendro ar y cyd neu i gyflawni prosiect neilltuol ond mae'r Cwmni Bro yn dra gwahanol i hyn. Mewn un ardal, Bro Ffestiniog, daeth nifer o fentrau at ei gilydd er mwyn cydweithio ar ffurf rhwydwaith o fentrau cymdeithasol dan fantell un cwmni, sef Cwmni Bro Ffestiniog. Mae pob cwmni a chorff sy'n ymaelodi yn y rhwydwaith yn cadw eu statws annibynnol ond yn dewis bod yn bartneriaid cyfartal fel aelodau o'r Cwmni Bro. Mae'r datblygiad arloesol hwn yn codi o brofiad mentrau cymunedol yn yr ardal yn y cyfnod diweddar a'r sylweddoliad bod cymaint i'w ennill drwy i'r mentrau gydweithio a chydgordio'u gweithgareddau. Eisoes mae mentrau cyffelyb mewn ardaloedd eraill yng Nghymru yn edrych i efelychu'r hyn sydd ar droed ym Mro Ffestiniog.

Cyn dyfodiad rhaglen Cymunedau'n Gyntaf i'r ardal 'roedd y Trydydd Sector yn weithgar iawn ym Mro Ffestiniog, fel ag y nodir isod.

- Sefydlwyd cwmni Seren yn 1996 gyda'r nod o gynnig cefnogaeth broffesiynol i bobl ag anableddau dysgu oedd yn byw yn yr ardal fel rhan o raglen 'Gofal yn y Gymuned' Llywodraeth San Steffan. Cofrestrwyd Seren fel cwmni trwy warant ac elusen gofrestredig.
- Yn ystod yr un cyfnod sefydlwyd canghennau lleol o gyrff ehangach, sef Barnardos a GISDA, y ddau ohonynt bellach yn chwarae rhan bwysig ym mywyd economaidd a chymdeithasol y fro.
- Ar ddechrau'r ganrif newydd sefydlwyd Trawsnewid mewn ymateb i ddiwedd cynhyrchu yng Ngorsaf Bŵer Niwclear Trawsfynydd ac y mae'r cwmni yn rhan annatod o fywyd economaidd a chymdeithasol Bro Ffestiniog.
- Ym Mhenrhyndeudraeth y sefydlwyd Deudraeth Cyf, at ddiwedd y mil naw nawdegau, cwmni cymunedol sydd yn arbenigo mewn prosiectau technoleg newydd.

Dynodwyd ward Bowydd a Rhiw ym Mlaenau Ffestiniog gan Lywodraeth Cymru fel ward oedd ddigon difreintiedig i fod yn rhan o raglen 'Cymunedau'n Gyntaf' pan ei sefydlwyd yn 2008. 'Roedd 100 ward ledled Cymru yn rhan o'r rhaglen honno gyda Bowydd a Rhiw yn un o saith yng Ngwynedd. Yn wahanol i'r mwyafrif o'r rhain penderfynodd y grŵp lleol yn y Blaenau sefydlu cwmni cymunedol trwy warant fel cerbyd i ddatblygu cynlluniau perthnasol.

Rhoddwyd cryn bwyslais yn y Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf ar lefel genedlaethol ar leddfu tlodi, gwella bywyd economaidd a gwella sgiliau'r bobl o fewn y wardiau. Yn lleol, fel y disgwyliwyd, rhoddwyd pwyslais mawr ar gefnogi trigolion difreintiedig trwy wahanol gynlluniau ar gyfer lleddfu tlodi. Roedd dau gorff a fu'n

flaenllaw yn y cyswllt hwn â phresenoldeb yn y Blaenau cyn Cymunedau'n Gyntaf, sef Barnardos a GISDA, y naill yn cefnogi teuluoedd ifanc a phlant a'r llall yn cynnig cefnogaeth i bobl ifanc, yn enwedig y rhai digartref.

Yn ogystal â chefnogi trigolion difreintiedig, 'roedd cynllun busnes Cwmni Cymunedau'n Gyntaf Bowydd a Rhiw yn rhoi pwyslais mawr ar ddatblygu cynlluniau economaidd ac amgylcheddol. Fe ysbrydolwyd y Cwmni gan yr hyn oedd eisoes yn digwydd ym maes mentrau cymdeithasol yn y fro. Gwelsai ymgais i greu twf yn y gweithgareddau hyn fel rhan annatod o'i gynllun busnes a datblygu. Fe ddynodwyd y meysydd gweithgareddau awyr agored ac amgylcheddol fel rhai y gellid eu datblygu gan fod yr ardal yn dynfa gref i bobl oedd yn ymddiddori ynddynt. Yn ogystal, gwelwyd cyfle i ddatblygu cynlluniau amgylcheddol a fyddai'n trawsnewid golwg tref Blaenau Ffestiniog a'r fro ac a allai gyfrannu at gynnydd sylweddol yn y diwydiant twristiaeth.

Aethpwyd ati i gynnal nifer sylweddol o sesiynau ymgynghori gyda thrigolion y fro ac fe gomisiynwyd sawl adroddiad ymchwil a dichonoldeb ar gyfer rhai o'r syniadau a chynlluniau a ddynodwyd. Ffrwyth yr ymchwil a'r ymgynghori oedd sefydlu menter gymdeithasol a oedd hollol ar wahân i'r fam gwmni, sef Antur Stiniog, a hynny yn 2008. Aeth yr Antur ati i ddatblygu'r syniadau a chynlluniau a ddaeth i law ac erbyn Haf 2012 'roedd wedi cychwyn menter fusnes beicio mynydd ar lethrau chwarel Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog yn ogystal ag ymdopi â phrosiectau eraill megis sefydlu llwybrau beicio o amgylch y dref ac yn y blaen. Bu'r fenter yn llwyddiant ysgubol o'r cychwyn a bellach mae wedi dathlu pum mlynedd o sefydlogi a thwf.

Sefydlodd Cwmni Cymunedau'n Gyntaf Bowydd a Rhiw gynllun y 'Dref Werdd' a oedd yn canolbwyntio ar amgylchedd yr ardal gan greu nifer o gynlluniau perthnasol fel clirio ardaloedd o rododendron, glanhau afonydd, sefydlu mannau gwyrdd newydd ar gyfer y gymuned yn ogystal â phrosiectau lleihau gwastraff bwyd ac arbed ynni a chreu rhandiroedd tyfu bwyd. Cafodd sawl llwyddiant yn y meysydd hyn a maes o law fe sefydlwyd yntau hefyd fel cwmni cymunedol trwy warant. Yn 2015 llwyddodd i sicrhau grant refeniw oddi wrth y Loteri Fawr er mwyn datblygu'r cynlluniau oedd wedi llwyddo a'u cynnig i ardal ehangach. Bellach mae'r cynllun wedi gwneud argraff a gwahaniaeth mawr i fywydau nifer helaeth o drigolion yr ardal. Yn ogystal, mae'r gwaith a gyflawnwyd wedi ennill ei blwyf gyda rhai o'r awdurdodau cyhoeddus a statudol sydd wedi sylweddoli bod ymdopi â her fel tlodi tanwydd yn y modd yma yn llwyddiannus.

Trwy weithgareddau Cwmni Cymunedau'n Gyntaf sefydlwyd Undeb Credyd ym Mlaenau Ffestiniog. Mae hyn yn ddatblygiad pwysig gan nad oes bellach yr un banc 'stryd fawr' ar gael yn y Blaenau. Yn ogystal y Cwmni oedd yn gyfrifol am hwyluso 'Blaenau Ymlaen', partneriaeth a sicrhaodd becyn ariannol gwerth £4.5 miliwn ar gyfer adfywio adeiledd y dref, canran sylweddol o'r arian yn dod oddi wrth y Gymuned Ewropeaidd.

Dros y cyfnod cefnogwyd hefyd fentrau fel CellB a'r Gwallgofiaid, sef cynllun i helpu datblygu sgiliau pobl ifanc yn y diwydiant aml-gyfryngol.

Yn y flwyddyn 2010 sefydlodd pentrefwyr Llan Ffestiniog fenter gymdeithasol, Pengwern Cymunedol, gyda'r nod o brynu a datblygu gwesty a thafarn, Y Pengwern, a oedd wedi cau ei ddrysau yn ystod 2009. Bu'r Pengwern yn greiddiol i fywyd economaidd a chymdeithasol y gymuned ers o leiaf 1728 ac roedd yn adnodd gwerthfawr yng ngolwg y gymuned. Mewn pentref o tua 300 o anheddau cyfrannodd oddeutu 200 o drigolion

lleol dros £30,000 mewn cyfranddaliadau yn Pengwern Cymunedol, sy’n Gymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus. Aethpwyd ati i geisio sicrhau'r cyllid angenrheidiol (£187,000) i brynu ac ail sefydlu’r busnes a llwyddwyd i brynu’r adeilad trwy ymdrechion y pentrefwyr a grant oddi wrth Lywodraeth Cymru a hwyluswyd gan Gymdeithas Tai Eryri (Grŵp Cynefin bellach). Ym mis Ebrill 2011 ail-agorwyd y drysau ac ers hynny mae’r fenter wedi mynd o nerth i nerth.

Ysgol y Moelwyn yw ysgol gyfun Bro Ffestiniog; yn gwasanaethu Blaenau Ffestiniog a chymunedau cyfagos fel Trawsfynydd a Gellilydan. Yn groes i bob tueddiad parthed canolfannau hamdden penderfynodd Ysgol y Moelwyn gymryd y cyfrifoldeb o redeg Canolfan Hamdden y dref oddi wrth a chyda bendith a chefnogaeth Cyngor Sir Gwynedd. Bellach, mae’r busnes yn ffynnu a dim digon o ofod ar gael ar gyfer y galw oddiwrth farchnad sy’n cynyddu’n gyson. Nid hon yw’r unig fenter mae Ysgol y Moelwyn wedi ymgymryd â hi ac mae ganddi sawl cynllun mentrus yr hoffai ddatblygu.

Yn ddiweddar, sefydlwyd dwy fenter o’r newydd. Mae Opra Cymru yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynhyrchu gweithiau opra adnabyddus yn yr iaith honno. Fel rhan o’i weithgareddau datblygodd gwrs pwrpasol wedi’i sylfaenu ar y byd theatr/opra/cyfryngol gyda 60 o fyfyrwyr ifanc mewn pedair ysgol gyfun yn ne Gwynedd yn cymryd rhan.

Datblygiad ac estyniad o gwmni Seren yw Cwmni Gwesty Seren, menter hyd fraich a sefydlwyd i ddatblygu gwesty tair seren sydd wedi ei anelu’n bennaf ar gyfer pobl ag anableddau. Agorodd y drysau yn 2014 ac mae’r fenter yn mynd o nerth i nerth; yn cyflogi 10 person a chyfrannu at ddatblygiad cyflym a sylweddol y diwydiant ymwelwyr yn y fro.

Yn ystod 2015 bu i Age Cymru Gwynedd a Môn gyflwyno rhai o’i wasanaethau yn y fro ac mae ganddo bellach bresenoldeb parhaol yn y dref.

Mae yna draddodiad gwerthfawr o fentergarwch amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol ym Mro Ffestiniog. Rhyngddynt mae’r mentrau sy’n aelodau Cwmni Bro Ffestiniog yn cyflogi oddeutu 150 o bobl yn y fro. Yn ogystal â chynnig swyddi parhaol, crëwyd cyfleoedd gyrfäol o safon ar gyfer yr unigolion proffesiynol hynny sydd am aros yn eu cymunedau. Mae’r mentrau hefyd yn creu cyfleoedd i wirfoddolwyr ac mae hyn yn gyfraniad pwysig i’r holl sector gwirfoddol ac elusennol yn yr ardal.

Er mai prif ddyletswydd a chyfrifoldeb y rhan fwyaf o’r mentrau yw cynnig gwasanaethau sydd yn helpu i leddfu tlodi, gwella sgiliau'r trigolion a chynnig cefnogaeth i’r difreintiedig, mae’r mentrau hefyd yn gwneud cyfraniad economaidd ychwanegol. Mae mwyafrif y rhai a gyflogir yn frodorion lleol sydd yn gwario o fewn eu cymuned gan gynyddu cylchdro cymunedol arian. Hefyd, caiff yr arian a’r elw a gynhyrchir gan y cwmnïau eu hail fuddsoddi yn y gwahanol fentrau sy’n hyrwyddo cylchrediad arian yn lleol yn ogystal â gwneud y mentrau’n fwy cynaliadwy yn y tymor hir.

Pan sefydlwyd Cwmni Cymunedau’n Gyntaf Bowydd a Rhiw yn 2008 ‘roedd am barhau i gefnogi'r hyn oedd eisoes yn bodoli yn y fro ac, yn bwysicach, i fynd ati i sefydlu mwy o fentrau a chynlluniau arloesol fyddai o fudd i’r gymuned ac fe lwyddodd yn hyn o beth. Yn anffodus, ym mis Medi 2012, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru, daeth ei weithgareddau i ben. Digwyddodd hyn er i’r Cwmni ennyn canmoliaeth gan weinyddwyr canolog y rhaglen ac iddo gyflawni llawer iawn o’r tasgau a wynebodd yn wreiddiol a gwella

ansawdd bywyd nifer sylweddol o drigolion. Ar y pryd 'roedd ymdeimlad cryf ymysg y trigolion, gwirfoddolwyr oedd wedi ymwneud â'r fenter a'r mentrau cymdeithasol lleol y dylai'r gwaith barhau. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd i drafod y syniad a daethpwyd i'r canlyniad unfrydol a brwdfrydig y dylai'r Cwmni a'i weithgareddau barhau. Penderfynwyd felly y dylid parhau â statws cyfreithiol y cwmni ond 'roedd rhaid newid ei enw. Felly, aethpwyd drwy'r broses arbennig honno a'i ail fedyddio'n swyddogol fel Cwmni Cymunedol Bro Ffestiniog. Erbyn hyn, ar lafar gwlad, cyfeirir at y Cwmni fel 'Cwmni Bro Ffestiniog' neu'r 'Cwmni Bro'. Cyflawnwyd y weithred sefydlu swyddogol yn ystod 2013. Ei dasg gyntaf ar y pryd oedd helpu i ymgorffori cynllun y 'Dref Werdd' fel cwmni ar wahân, wedi ei warantu, a cheisio sicrhau'r cyllid ar gyfer ei ail sefydlu. Llwyddwyd i wneud hynny gan sicrhau grant refeniw oddiwrth rhaglen 'Pawb a'i Le', Cronfa'r Loteri Fawr, ac ym mis Mai 2015 dechreuodd ar ei waith. Aiff y gwaith hwnnw rhagddo yn llwyddiannus iawn ar hyn o bryd.

Ers 2013 mae Cwmni Bro Ffestiniog wedi cyflawni llawer drwy ymdrechion gwirfoddolwyr ynghyd â pheth gwaith cyflogedig. Ond, os yw Cwmni Bro a'r math o ddatblygiad y mae'n ei gynrychioli am gyrraedd ei lawn botensial mae'r Cwmni angen cefnogaeth fwy sicr. Rhaid wrth y cyllid angenrheidiol fel y gellid parhau â gwaith Cwmni Bro Ffestiniog ar sail fwy cadarn drwy gyflogi swyddogion llawn amser.

Dros yr 20 mlynedd diwethaf bu twf sylweddol yn y nifer o fentrau cymunedol sy'n gweithredu o fewn ardal Bro Ffestiniog. Mae hyn wedi dechrau magu meddylfryd newydd ymysg ni'r trigolion, agwedd gadarnhaol o fynd ati i gyfranogi yn y broses o wneud pethau trosom ein hunain fel cymuned. Mae meithrin y newid diwylliannol hwn yn greiddiol i'r dasg o greu dyfodol llewyrchus i'r ardal. Sefydlwyd Cwmni Bro er mwyn parhau'r gefnogaeth i'r hyn oedd eisoes yn bodoli yn y fro ac i fynd ati i sefydlu mwy o fentrau a chynlluniau arloesol fydd o fudd i'r gymuned a dechreuodd lwyddo yn hyn o beth.

## 1B

## SWYDDOGAETH CWMNI BRO FFESTINIOG

- Mae hybu cyfranogiad y gymuned yn allweddol a chreiddiol i holl swyddogaethau eraill Cwmni Bro Ffestiniog.
- Mae cyfranogiad y gymuned yn dibynnu ar gyfathrebu effeithiol ac un o gynlluniau sylfaenol y cwmni yw datblygu dulliau cyfathrebu cymunedol yn yr ardal, yn enwedig cyfryngau cymdeithasol digidol cymunedol. Bydd y cyfrwng digidol cymunedol, BROcast Ffestiniog, yn darlledu'r rhaglen gyntaf ddiwedd Gorffennaf 2018.
- Cyfrifoldeb y Cwmni Bro yw ymgymryd â mantell y cyn Cwmni Cymunedau'n Gyntaf a pharhau â datblygu'r gwaith o adfywio a bywiogi economi yn ogystal â bywyd cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Bro Ffestiniog.
- Helpu cwmniau sydd yn bodoli i ddynodi a datblygu cyfleoedd masnachol newydd er mwyn creu mwy o incwm a chyfoeth a swyddi gan arwain at ddatblygu sgiliau'r trigolion a helpu i leddfu tlodi.
- Hyrwyddir a chydlynir mwy o gydweithio rhwng y mentrau gan rannu ymarfer gorau ac adnoddau, gan gynnwys adnoddau dynol. Er enghraifft, mae un swyddog cyllid a busnes yn gweithio i dair gwahanol fenter.

- Caiff mentrau a phrosiectau newydd eu sefydlu yn arwain at fwy o swyddi a chyfoeth yn ogystal ag adfywio adeiledd a chymdeithas yr ardal.
- Datblygir perthynas agosach a ffrwythlon ymysg y mentrau cymdeithasol a rhyngddynt a'r sector breifat, cyrff gwirfoddol a chyrff cyhoeddus a statudol er mwyn sicrhau mwy o fuddsoddiad effeithlon ac effeithiol yn yr ardal.
- Hybir diwylliant o fentergarwch cymunedol ymysg pobl yr ardal gan dargedu unigolion a chyrff o bob math.
- Gosod esiampl o ddatblygiad cymunedol integredig a chyfannol y gellir ei hefelychu gan gymunedau eraill ar draws Cymru a thu hwnt.
- Hyrwyddo'r model o ddatblygiad cymunedol a arloesir ym Mro Ffestiniog a dysgu gan a chydweithio gyda chymunedau eraill, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Bod yn agored i syniadau a chyfleoedd ynglŷn â chyfnewid a masnachu gyda mentrau cymdeithasol eraill yn rhanbarthol, yn genedlaethol a rhyngwladol.

## 1C

## CYNLLUNIAU CWMNI BRO FFESTINIOG

Mae Cwmni Bro Ffestiniog yn gweithredu mor gost effeithiol ag y gall ac ni fydd yn gwario ar swyddfeydd crand a moethus ond yn hytrach defnyddir adnoddau er mwyn sicrhau bod y buddiolwyr yn cael y gwerth gorau. Caiff gefnogaeth ymarferol parthed rhai adnoddau gan y partneriaid sy'n aelodau Cwmni Bro Ffestiniog. Mae'n gweithredu yng nghymunedau Blaenau Ffestiniog, Trawsfynydd a Phenrhyndeudraeth a'r pentrefi cyfagos sydd, rhyngddynt, gyda phoblogaeth o tua 8,000.

### 1C.1

### Datblygiad y Mentrau Presennol

Bu datblygiad y mwyafrif o'r mentrau lleol yn gyson a chynaliadwy ond mae'r mentrau o'r farn bod sawl cyfle nad ydynt wedi manteisio arnynt. Dylid nodi bod y mentrau hyn mor hunan cynhaliol yn ariannol ag y gallent fod, hyn trwy fasnachu neu dendro am gytundebau, yn bennaf gan y sector cyhoeddus. Mae rhai, fel Pengwern Cymunedol, Antur Stiniog, Gwesty Seren a rhan o weithgareddau Cwmni Seren, fel ail gylchu ac ail ddefnyddio, ddim yn dibynnu ar unrhyw grantiau cyhoeddus neu gytundebau lefel gwasanaeth. Mentrau masnachol llwyr yw'r rhain ac yn cystadlu gydag amryw o fusnesau hollol breifat sydd yn ymgymryd â'r un gwaith. Bydd swyddogion Cwmni Bro yn gweithio yn agos gyda hwy i ddynodi cyfleoedd newydd boed yn rhai masnachol llwyr, neu gytundebau cyhoeddus neu breifat y gallent dendro amdanynt, neu gronfeydd grantiau sydd ar gael i'w helpu i ddatblygu eu gwasanaethau craidd.

Mae'r Cwmni Bro hefyd yn ymwybodol o'r gwahanol wasanaethau sydd ar gael i helpu'r mentrau, nid yn unig i ddynodi cyfleon gwaith ac incwm newydd ond hefyd wasanaethau a all eu cynorthwyo i ddatblygu'r cwmni a'i wneud yn llawer mwy effeithiol, cystadleuol a phroffesiynol. Golyga hyn wasanaethau fel hyfforddiant,

ymgynghoriadau gan arbenigwyr yn y gwahanol feysydd, datblygu sgiliau staff, rheolwyr a chyfarwyddwyr ac yn y blaen. Mae 14 menter yn weithredol yn yr ardal ar hyn o bryd ac y mae gan bob un ohonynt y cyfle a'r gallu i ddatblygu a chreu swyddi o'r newydd yn ogystal â sicrhau parhad y swyddi presennol.

## 1C.2

### Hybu Mentrau Newydd

Mae nifer o fudiadau o fewn ardal Bro Ffestiniog nad ydynt ar hyn o bryd yn gwmnïau ond yn rhedeg prosiectau a all, gyda'r cymorth cywir a phroffesiynol, ddatblygu i fod yn fentrau masnachol. Er enghraifft, mae Cwmni Bro yn arwain trafodaethau gyda chwmni preifat lleol a all arwain at sefydlu cynllun melin wynt cymunedol ym Mro Ffestiniog. Mae'r cwmni preifat yn berchen tir sydd yn addas ar gyfer y fenter ac yn barod iawn i gydweithio gyda menter gymunedol i'w gwireddu. Gyda chymorth Arloesi Gwynedd comisiynwyd ymchwil i ddatblygu strategaeth ynni cymunedol ar gyfer Bro Ffestiniog a fydd yn edrych ar ffyrdd o gynhyrchu, dosbarthu ac arbed ynni.

Bu'r Gymdeithas Hanes lleol yn trefnu arddangosfeydd treftadaeth yn ystod yr haf ac yn awyddus i sicrhau a datblygu adeilad a all fod yn gartref parhaol ar ei chyfer. Byddai hyn yn dathlu hanes a threftadaeth yr ardal yn ogystal â chynnig adnodd newydd ar gyfer y nifer sylweddol o ymwelwyr sydd yn ymweld â'r ardal yn flynyddol.

Un o gynlluniau Cwmni Cymunedau Gyntaf Bowydd a Rhiw oedd sefydlu gwasanaeth 'felorel' a beicio a cherdded ar hyd hen wely'r rheilffordd rhwng Blaenau Ffestiniog a Thrawsfynydd. Buasai hyn yn atyniad newydd, unigryw a gwahanol ar gyfer ymwelwyr.

Eisoes cyflawnwyd llawer o waith ymchwil a thrafod ar y prosiectau uchod a rhai eraill, llawer ohono yn wreiddiol o dan ymbarél Cwmni Cymunedau'n Gyntaf, ac yn ddiweddarach drwy ymdrechion gwirfoddolwyr y Cwmni Bro. Hefyd, mae nifer o syniadau eraill ar y gweill neu mewn egin stad sy'n galw am gefnogaeth. Rhagwelir hefyd y daw cyfleoedd eraill i'r amlwg fel yr aiff y gwaith a'r gwasanaeth rhagddo fel y bydd mwy o unigolion, mudiadau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol arfaethedig yn dod yn fwy cyfarwydd â'r Cwmni Bro a'r hyn a all wneud i'w helpu.

## 1C.3

### Datblygu Cynlluniau Sydd Eisoes ar y Gweill

Mae rhai cynlluniau sydd eisoes ar y gweill nad ydynt wedi datblygu ar y raddfa a obeithiwyd ond gyda chymorth swyddogion Cwmni Bro gellid gwneud hynny er lles y gymuned. Trosglwyddwyd tir ac eiddo o'r sector cyhoeddus i Antur Stiniog ac mae bwriad i ddatblygu un safle arbennig ar gyfer adeiladu tai fyddai ar gael i bobl ifanc bregus. Cynllun fyddai hwn ar y cyd rhwng yr Antur, GISDA, y Dref Werdd a Llywodraeth Cymru.

Yn ddiweddar, sicrhawyd arian oddiwrth gynllun Arloesi Gwynedd Wledig er mwyn ymchwilio i mewn i'r posibiliadau i'r gymuned ddarparu gwasanaethau anstatudol y bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu eu terfynu neu allanoli. Mae hwn y math o waith y gall y Cwmni Bro ymdopi ag ef.

Cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar gyda nifer o gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol er mwyn edrych ar y posibiliadau o gyd-lunio a marchnata'r digwyddiadau a gaiff eu trefnu yn y fro a'r amrywiaeth adnoddau ar gyfer ymwelwyr i'r ardal.

Mae'r Ganolfan Gymdeithasol a'r Neuadd Chwaraeon yn ganolog i nifer helaeth o weithgareddau'r gymuned. Sicrhawyd cyllid ar gyfer cynlluniau datblygu'r cyfryw er mwyn darparu cyfleusterau gwell a bellach mae angen symud y rhain yn eu blaenau.

Nid oes diffyg syniadau, ymroddiad na chynlluniau yn ardal Bro Ffestiniog ond 'rydym angen adnoddau dynol cyflogedig i helpu eu gwireddu.

## 1C.4

## Cydweithio Rhwng Mentrau Cymunedol

Er bod cynifer o fentrau cymdeithasol yn yr ardal cymharol ychydig o gydweithio bu rhyngddynt tan yn eithaf diweddar. Yn union fel yn y sector breifat, prif ddyletswydd a chonsyrn y sawl sy'n rhedeg menter unigol yw sicrhau cynhaliaeth a chynaliadwyedd y busnes. Mae tasgau niferus yn mynd ag amser llawn unrhyw reolwr. Mae hyn yn aml iawn yn golygu na all rheolwyr mentrau sefydlu a datblygu perthynas gyda mentrau eraill er iddynt sylweddoli y gallasai hynny fod o fantais fasnachol iddynt. Amcan Cwmni Bro yw sicrhau y bydd mwy o gydweithio rhwng y gwahanol fentrau drwy ddefnyddio swyddogion Cwmni Bro fel dolen gyswllt a broceriaid gonest rhyngddynt. Rhestrir rhai o fanteision cydweithio isod.

- Rhannu gwybodaeth ac ymarfer da.
- Rhannu cysylltiadau a all fod o fudd i eraill e.e. cyflenwyr sydd yn cynnig telerau da.
- Rhannu adnoddau ymhlith gwahanol fentrau cymdeithasol, e.e. gwasanaethau fel cyllid, adnoddau dynol, gweinyddu a marchnata.
- Rhannu staff ymhlith y mentrau. Eisoes mae un gweithiwr cyllid a busnes yn yn gweithio i dair o'r mentrau sy'n aelodau o'r Cwmni Bro.
- Rhannu gwybodaeth am gyfleoedd busnes y gallasent eu sicrhau ar y cyd, trwy bartneriaeth neu gonsortiwm.
- Rhannu gwybodaeth am gronfeydd cyllid, grantiau, benthyciadau ayb.
- Mae manteision graddfa i'w hennill drwy gydweithrediad rhwng y mentrau yn yr ardal yn ogystal ag arbed dyblygu gwaith. Un esiampl o hyn yw marchnata ar y cyd yn hytrach na phob menter yn gwneud hynny ar wahân.

Rhagwelir y bydd cydweithio rhwng mentrau cymunedol y fro yn arwain at amlygu llawer mwy o gyfleoedd manteisiol fel yr aiff y gwaith rhagddo.

## 1C.5

## Cydweithio Rhwng Mentrau Cymunedol, Elusennau, Asiantaethau Gwirfoddol a Chyrff Cyhoeddus a Phreifat

Sefydlodd Cwmni Cymunedau'n Gyntaf Bowydd a Rhiw berthynas dda ac adeiladol gyda nifer helaeth o gyrff, tu mewn a thu allan i'r ardal. Arweiniodd hyn at ysgogi amryw o weithgareddau, digwyddiadau a buddsoddiadau o fewn y gymuned. Enghraifft dda o hyn oedd Grŵp Glanhau Afonydd Bro Ffestiniog a gydweithiodd gyda nifer o gyrff gwirfoddol a statudol, fel Cyfoeth Naturiol Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri. Fe arweiniodd hyn at wella safon rhai o afonydd yr ardal a denu buddsoddiadau sylweddol, nid yn unig mewn arian ond hefyd arbenigrwydd a chymorth ymarferol. Mae hyn yn tanlinellu gwerth cydweithio yn hytrach na phawb yn gweithio ar wahân.

Enghraifft ddiweddar yw partneriaeth a sefydlwyd rhwng Y Dref Werdd a Chynllun Nyth Llywodraeth Cymru, cynllun a sefydlwyd i helpu pobl arbed costau ynni ac osgoi tlodi tanwydd. Mae Nyth yn cynnig grantiau i unigolion anghenus i'w helpu arbed costau ynni a thrwy gydweithio â'r Dref Werdd i hyrwyddo'r fenter ym Mro Ffestiniog sicrhawyd 33% o holl fuddsoddiad Nyth yng ngogledd Cymru i drigolion Bro Ffestiniog.

Bellach, mae amryw o'r mentrau cymdeithasol sydd yn gweithio yn yr ardal rhyngddynt wedi sefydlu perthynas agos gydag amryw o gyrff gwirfoddol, statudol a chyhoeddus yn ogystal â'r sector breifat. Mae llawer o fusnesau preifat bach yr ardal wedi eu hangori yn y gymuned ac yn awyddus i gydweithio gyda'r mentrau cymdeithasol, nid yn unig er eu lles eu hunain ond oherwydd bod ganddynt ymroddiad i ffyniant cyffredinol y fro. Bydd Cwmni Bro yn datblygu'r berthynas honno yn ogystal â sefydlu partneriaethau newydd lle mae'n llesol a buddiol i'r naill a'r llall ac, yn bwysicach, er budd y trigolion lleol.

## 1C.6.

## Cyfranogiad y Gymuned a Mentergarwch Cymunedol

Mae dwy elfen bwysig yn sail i gynyddu cyfranogiad y gymuned, sef cyfathrebu ac ymgynghori eang ac effeithiol. Eisoes bu cryn gyfnod o drafod ymysg a rhwng y mentrau sydd wedi dod at ei gilydd dan ymbarel y Cwmni Bro. Yn ogystal, cafwyd cyfnod o gyfathrebu ac ymgynghoriad rhwng y mentrau unigol sy'n aelodau o'r Cwmni Bro ac aelodau'r gymuned, e.e. yn ddiweddar yn achos Antur Stiniog, Pengwern Cymunedol a'r Dref Werdd.

Rhoddwyd yn eu lle rhai o'r camau cyntaf yn y broses o greu trefn ddigidol effeithlon o gyfathrebu ymysg mudiadau a chyda'r gymuned yn gyffredinol. Rhwng gwahanol fentrau'r fro mae llawer o brofiad a sgiliau ac yn ogystal gwybodaeth ac adnoddau technegol i alluogi datblygiadau arloesol yn y maes cyfathrebu cymunedol digidol. Trefnodd Cwmni Bro i gynrychiolwyr mentrau lleol i ymweld â Felinfach yng Ngheredigion i ddysgu o brofiad Radio Beca o arloesi ym maes cyfathrebu a chyfranogi cymunedol digidol cyfoes. Yn ddiweddar gwnaethpwyd cais llwyddiannus am gefnogaeth gan Arloesi Gwynedd i wneud y gwaith ymchwil angenrheidiol ar gyfer datblygu 'BROcast Ffestiniog', sef teitl y gwasanaeth darlledu cymunedol yn yr ardal. Bydd BROcast Ffestiniog yn cychwyn darlledu ddiwedd mis Gorffennaf 2018.

Mae'r mwyafrif o fentrau sydd eisoes yn gweithredu yn yr ardal wedi'u sefydlu a'u datblygu gan unigolion neu griwiau o bobl fentrus a oedd yn gweld cwmniau cymunedol fel ffordd o gyfrannu at yr economi a'r gymdeithas leol a chreu cyfleoedd newydd. Un o rinweddau cyffredinol mentrau cymdeithasol yw eu gallu i ddynodi problemau o fewn eu cymuned ac, yn bwysicach, llwyddo i ymdopi â'r problemau hynny. Maent yn cydnabod mai'r ateb i'r mwyafrif o'r problemau yw ymdrin â hwy ein hunain o fewn ein cymunedau. Mae'r ateb, fel arfer, yn ein dwylo ni ac i ni beidio dibynnu ar rhai o'r tu allan i ddatrys ein problemau. Felly, bydd y Cwmni Bro yn ceisio codi ymwybyddiaeth pobl ardal Bro Ffestiniog o'r athroniaeth yma ac yn eu hysbrydoli i gymryd cyfrifoldeb dros eu cymuned eu hunain. Golyga hyn godi proffil pob mudiad sy'n aelod o'r Cwmni Bro a hybu dealltwriaeth o botensial y model o ddatblygu cymunedol integredig sy'n cael ei arddel a'i arloesi gan Gwmni Bro Ffestiniog.

## 1C.7

## Datblygiad Unigolion a Datblygiad Cymunedol Integredig

Mae cyfathrebu a dysgu yn sylfaenol i ddatblygiad cymunedol ym Mro Ffestiniog. Eisoes mae addysg a hyfforddiant yn greiddiol i waith nifer o bartneriaid Cwmni Bro ac y mae'n amlwg bod cydgordio a hybu datblygiad addysgol unigolion a grwpiau yn gonglfaen i weledigaeth ac athroniaeth y Cwmni Bro.

Yn ddiweddar comisiynwyd Sylfaen Cymunedol (gweler Atodiad 2) i ymchwilio anghenion addysgol a hyfforddiant yr ardal fel y cant eu dirnad gan y mentrau sy'n aelodau'r Cwmni Bro. Bydd ffrwyth y gwaith hwn yn werthfawr oherwydd ei fod yn datgelu'r bylchau mewn darpariaeth ar lefel y gymuned y gall aelodau Cwmni Bro geisio ymateb iddynt. Mae'r aelodau yn cynnig amrywiaeth o hyfforddiant rhyngddynt a hynny, fel arfer, yn arwain at lawer o bobl yn ymgysylltu â'r drefn addysg am y tro cyntaf fel oedolion.

Yn aml iawn mae trigolion ardaloedd difreintiedig yn digalonni ynglŷn â'u sefyllfa ac yn colli pob ymddiriedaeth mewn cyrff allanol sydd â'r cyfrifoldeb o adfywio eu bröydd. Gyda sefyllfa ariannol amryw o'r cyrff cyhoeddus hyn yn gwaethygu o flwyddyn i flwyddyn ac o'r herwydd yn methu a buddsoddi mewn ardaloedd i'r un graddau ag yn y gorffennol, ofer yw ceisio dibynnu arnynt am achubiaeth. Felly, os am godi calon, creu ysbryd mwy mentrus ac ysbrydoli mwy o unigolion i gymryd rhan mewn gweithredu yn economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac addysgiadol bydd rhaid sefydlu rhaglen o godi ymwybyddiaeth a chreu hyder ymysg pobl yr ardal.

## 1CH

## LLYWODRAETHIANT a RHEOLAETH

- Cofrestrwyd Cwmni Bro Ffestiniog fel cwmni cymunedol cyfyngedig trwy warant.
- Rheolir y Cwmni Bro gan gynrychiolwyr y mentrau cymunedol sy'n aelodau'r Cwmni Bro. Sefydlwyd partneriaeth ffurfiol rhwng yr holl fentrau sy'n aelodau o'r Cwmni Bro ac y mae hyn yn helpu i sicrhau ymroddiad llwyr y gwahanol bartneriaid.

- Mae Cwmni Bro Ffestiniog yn rhwydwaith o fentrau cymunedol ac y mae pob menter sy'n rhan o'r Cwmni Bro yn fenter annibynnol sy'n dewis o'u gwirfodd gydweithio dan faner y Cwmni Bro.
- Mae cynrychiolwyr gan bob menter gymdeithasol ar Fwrdd Cyfarwyddwyr Cwmni Bro Ffestiniog a thrwy hynny caiff dyheadau cyfrannau sylweddol o drigolion yr ardal eu gwyntyllu yn ei drafodaethau a'i weithgareddau.
- Yn ddibynnol ar sicrhau cyllid, bwriedir creu dwy swydd llawn amser ar gyfer gweithredu amcanion a phrosiectau'r Cwmni Bro, y naill i gynnig cymorth ymarferol i'r mentrau a'r llall i ymgysylltu ac ymgynghori'n gyson gyda'r aelodau a hwyluso cyfranogiad y gymuned yn ei chyfanrwydd. Eisoes mae'r ddwy swydd yn cael eu gwneud yn rhan amser a thros dro ond mae angen sefydlogi'r swyddi hyn.

Pan ddiddymwyd rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn yr ardal yn 2013 ffurfiwyd Cwmni Bro Ffestiniog i gymryd ei le gyda thri chyfarwyddwr yn sicrhau ei barhad a chynnig arweiniad i'r dyfodol. 'Roedd y tri ohonynt yn aelodau o Fwrdd y cwmni blaenorol, sef Cwmni Cymunedau'n Gyntaf Bowydd a Rhiw, ac yn gyfrifol am wariant sylweddol yn flynyddol dros gyfnod ei fodolaeth. Maent yn dra phrofiadol. Yn ogystal â bod yn allweddol i lwyddiant rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn yr ardal maent yn gyfarwyddwyr a rheolwyr nifer o sefydliadau cyhoeddus a chymunedol eraill, yn lleol a chenedlaethol.

Mae Cwmni Bro Ffestiniog yn cynrychioli ardal ddaearyddol ehangach na'r Cwmni blaenorol a gyfyngwyd gan raglen Cymunedau'n Gyntaf i un ward, sef Bowydd a Rhiw, ym Mlaenau Ffestiniog. Cododd Cwmni Bro Ffestiniog o'r cwmni blaenorol, ond mae'n perthyn yn nes i'r gymuned, nid yn unig oherwydd ei fod yn ymwneud ag ardal fwy ond hefyd oherwydd bod cynifer o fentrau yn aelodau'r Cwmni Bro, pob aelod yn ei dro yn atebol i'r gymuned. Caiff pob menter unigol sedd ar fwrdd y cwmni ac mae hwnnw'n cyfarfod yn rheolaidd, o leiaf unwaith y mis. Mae ystod eang o sgiliau ymysg aelodau'r Bwrdd, o'r ariannol i farchnata, adnoddau dynol, sgiliau cyfreithiol ac yn y blaen. Pan nad oes sgiliau penodol ar gael ymhlith yr aelodau presennol fe benodir pobl sydd yn eu meddu, gobeithio o fewn y gymuned ond nid o reidrwydd. Mae gan y mwyafrif o'r mentrau presennol sustemau rheolaeth effeithiol ac effeithlon mewn lle ar gyfer eu cwmniau eu hunain a chaiff y Cwmni Bro fanteisio ar y profiad hwn.

Er mwyn gweithredu'n effeithiol mae Cwmni Bro Ffestiniog angen cyflogi Gweithiwr Datblygu ac hefyd Gweithiwr Cyfathrebu a Chyfranogi. Rhan o waith y Gweithiwr Cyfathrebu a Chyfranogi fydd datblygu dulliau effeithiol o gyfathrebu, yn enwedig drwy gyfryngau digidol, yn cynnwys BROcast Ffestiniog, a chynyddu cyfraniad a chyfranogiad y gymuned. Bydd hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda mentrau cymdeithasol tu allan i Fro Ffestiniog er mwyn cyflwyno profiad y Cwmni Bro i eraill ac er mwyn dysgu o brofiad ein gilydd fel rhan o hyrwyddo mudiad datblygu cymunedol ehangach.

# RHAN 2

# CEFNOGAETH I GWMNI BRO FFESTINIOG

### 2A

### CEFNOGAETH GYMUNEDOL

Yn ddiweddar comisiynwyd ymchwilydd gan Busnes Cymdeithasol Cymru (gweler Atodiad 2) i gynnal asesiad bras o effaith economaidd y mentrau sy'n rhan o bartneriaeth Cwmni Bro ar ardal Bro Ffestiniog am y cyfnod 6ed o Ebrill 2016 i'r 5ed o Ebrill 2017. Pwrpas y gwaith yw cael syniad o'r sefyllfa bresennol a pharatowyd adroddiad interim ar yr effeithiau economaidd. Edrychir ar werth y buddsoddiad sy'n cael ei ddenu i'r ardal leol gan y mentrau. Hefyd, amcangyfrifir beth yw effeithiau dewis cyflogi a phrynu yn lleol a dal asedau yn lleol ar gadw arian oddi mewn i economi ardal Bro Ffestiniog. Er ei fod yn ddyddiau cynnar o ran yr ymchwil mae'r arwyddion cynnar yn cadarnhau cymaint yw effaith pellgyrhaeddol y mentrau cymunedol ar economi'r ardal.

Nid oes unrhyw ardal arall yng Nghymru â chymaint o fentrau cymunedol llwyddiannus â Bro Ffestiniog. Mae Cwmni Bro Ffestiniog yn ddatblygiad unigryw sy'n cysylltu'r holl fentrau â'i gilydd a chyda'r gymuned. Mae hyn i gyd yn bosib oherwydd natur y gefnogaeth o du'r gymuned ac y mae llwyddiannau mentrau cymunedol y fro yn brawf o gryfder y gefnogaeth gymunedol dros gyfnod o amser.

Gallasid rhoi llu o esiamplau o gryfder y gefnogaeth gymunedol. Yma rhoddir un enghraifft er mwyn gwneud y pwynt. Pan gaeodd Gwesty'r Pengwern yn Llan Ffestiniog aeth y pentrefwyr ati i sefydlu menter gydweithredol i'w brynu a'i redeg. Cynigiwyd cyfranddaliadau yn y fenter a gosodwyd targed o £25,000 i'w godi'n lleol. Cyrhaeddwyd y nod mewn llai na thair wythnos. Mewn pentref o tua 300 o anheddau mae bellach dros 200 o gyfranddalwyr gyda phob cyfranddaliwr wedi prynu lleiafswm o £100 o gyfranddaliadau. Yn ogystal, yn achos Y Pengwern mae bron i gant o bobl wedi gwirfoddoli eu llafur a'u hamser mewn gwahanol ffyrdd dros y saith mlynedd ers sefydlu'r fenter. Anodd meddwl am dystiolaeth fwy cadarn o gryfder cyfranogiad cymuned, Er hynny, mewn ymateb i gais Y Pengwern am gymorth oddiwrth un o'r cyrff dosbarthu grantiau cenedlaethol fe'i gwrthodwyd, mewn ymateb stoc, ar sail diffyg tystiolaeth o gyfranogiad y gymuned! Yn anffodus, mae'r math hwn o ymatebion sarhaus o du sefydliadau sydd i fod i gefnogi cymunedau yn brofiad cyffredin ymysg mentrau cymunedol.

Mae'n amlwg bod cyfathrebu rhwng y mentrau sy'n aelodau o Gwmni Bro Ffestiniog a'r cyhoedd yn sylfaenol i gyfranogiad y gymuned ac i lwyddiant y sector gymunedol yn yr ardal. Bu cefnogaeth y papur bro, Llafar Bro, yn allweddol yn hyn o beth. Gwneir defnydd cynyddol o gyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu ac i annog cyfranogiad y gymuned. Mae'r Cwmni Bro yn ymwybodol o botensial darlledu digidol cymunedol ac wedi cymryd camau i hyrwyddo'r datblygiad hwn. Datblygiad sydd yn dwyn y teitl 'Brocast Ffestiniog'. Gwnaethpwyd cais llwyddiannus i Arloesi Gwynedd i gefnogi'r ymchwil sydd ei angen er mwyn datblygu

darlledu cymunedol ym Mro Ffestiniog. Dechreuodd 'BROcast Ffestiniog' ddarlledu mis Awst 2018. (Gweler facebook.com/BROcastFfestiniog)

## 2B

## CEFNOGAETH WLADWRIAETHOL A SEFYDLIADOL

Cymysg yw'r darlun o ran cefnogaeth wladwriaethol a sefydliadol i fentrau cymunedol yng Nghymru ac felly y bu'r profiad ym Mro Ffestiniog. Nid mater o gŵyn yn erbyn unigolion na sefydliadau unigol yw hyn. I'r gwrthwyneb, ar y cyfan, bu gweithwyr llywodraeth ganol a lleol a gwahanol asiantaethau yn barod eu cymorth; ond roedd hyn wedi'i gyfyngu i'r ychydig y gallent ei gynnig dan y drefn sydd ohoni ar hyn o bryd. A dyma yw gwraidd y broblem, sef mor bitw mewn gwirionedd yw'r cymorth sydd ar gael i fentrau cymunedol ac mor ddi-rym yw cymunedau o'u cymharu ag amryfal rymoedd y wladwriaeth a chwmniau cyfalaf mawr.

Amlygir yr anghydbwysedd rhwng cyfalaf a chymuned pan edrychir ar wariant llywodraeth ganol a lleol ar ddatblygiad economaidd. Mae'r wladwriaeth yn rhoi cymhorthdal enfawr i gwmnïau preifat traws wladol gan adael mentrau cymunedol i gystadlu ymysg ei gilydd am y briwsion.

Mae rheolaeth y canol dros incwm a gwariant cymunedol yn amlygu ymhellach mor anghytbwys yw perthynas gwladwriaeth a chymuned. Er enghraifft, pum mlynedd yn ôl edrychwyd yn fras ar y sefyllfa yn Sir Conwy. Am bob punt a dderbyniwyd gan fudiadau yn y gymuned roedd gwahanol sefydliadau llywodraethol, ar lefel Ewrop, San Steffan, Cynulliad Cymru a Chyngor Conwy, rhyngddynt, wedi gwario tua £27 yn gweinyddu a rheoli'r bunt ar gyfer y gymuned. Tua'r un pryd amcangyfrifwyd bod llywodraethau yn gwario deugain punt ar gyfer pob punt a gyrhaeddai'r gymuned yn ardal Wrecsam.

Dan lymder cynyddol gwaethygu mae'r sefyllfa o ran ffynonellau cyllid ar gyfer cymunedau. Mewn cyfarfod diweddar mynegwyd y tueddiadau'n glir gan un o uwch swyddogion economaidd Cyngor Gwynedd. Pan ofynnwyd iddi am arian o gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer prosiectau cymunedol esboniodd bod y Cyngor Sir bellach angen yr arian iddynt hwy eu hunain oherwydd toriadau cynyddol i'w cyllid ac nad oedd dim i'w sbario ar gyfer prosiectau cymunedol.

Pwysleisir bod y sector cymunedol ym Mro Ffestiniog yn gwerthfawrogi'r help a gafwyd gan unigolion, asiantaethau a chyrff llywodraethol. Ar adegau, yn enwedig yng nghyfnod Cymunedau'n Gyntaf, bu'r cymorth yn allweddol. Y broblem yw holl agwedd llywodraeth at y sector cymunedol, maint a natur y gefnogaeth sefydliadol ac mor anghyfartal yw'r berthynas grym rhwng gwladwriaeth a chymuned. Rheoli o'r top i lawr sy'n nodweddu llywodraeth yn hytrach na hwyluso ymrymuso cymunedol. Ar waethaf hyn mae profiad Cwmni Bro Ffestiniog a chymunedau eraill ar hyd a lled y wlad a thu hwnt yn dangos gymaint y gall y sector cymunedol ei gyflawni.

Neges glir Cwmni Bro Ffestiniog yw gymaint sydd wedi'i gyflawni ond gymaint mwy yw'r potensial pe buasai'r gefnogaeth sefydliadol briodol yn ei le. Mater yw hyn i'r Llywodraeth yng Nghymru ddatblygu polisïau i gefnogi a gwireddu potensial y sector cymunedol. Yn hyn o beth mae gwersi i'w dysgu o wledydd eraill gan gynnwys Yr Alban, Sweden a rhai o wledydd y byd mwyafrifol.

Mae cyfrifoldeb ar y sector cymunedol i fynnu trawsnewid polisïau llywodraeth. Rydym fel cymunedau a sector cymunedol angen trefnu a grymuso ein hunain yn fudiad pwerus i sicrhau cefnogaeth sefydliadol er mwyn gwireddu potensial cymunedau yng Nghymru. Mae peth symud i'r cyfeiriad hwn. Er enghraifft, yn ddiweddar mae'r mudiad Talwrn (gweler Atodiad 2) wedi cynhyrchu dogfennau gan ei aelodau yn lleisio barn rhai yn y sector cymunedol.

Mae'r sector cymunedol wrthi'n mynd trwy broses gyfranogol i greu maniffesto ar gyfer cymunedau yng Nghymru gyda'r bwriad o newid agwedd llywodraeth at gymuned a pherthynas grym rhwng gwladwriaeth a chymuned. Yn Sweden mae cymunedau ar hyd a lled y wlad wedi ymrymuso ac yn cydweithio fel mudiad cenedlaethol pwerus sy'n cynnal Senedd Genedlaethol y Cymunedau bob yn ail flwyddyn. Mae'r mudiad a'r ymrymuso cymunedol hwn wedi trawsnewid perthynas llywodraeth a chymuned yn Sweden. Neges Cwmni Bro Ffestiniog yw ein bod angen math tebyg o drawsnewid ym mherthynas llywodraeth a chymuned yng Nghymru er mwyn rhyddhau potensial ein cymunedau. Mae cyfrifoldeb ar y sector cymunedol i fynnu trawsnewid polisïau llywodraeth. Rydym fel cymunedau a sector cymunedol angen trefnu a grymuso ein hunain yn fudiad i sicrhau cefnogaeth sefydliadol er mwyn gwireddu potensial cymunedau yng Nghymru.

# RHAN 3

# CLORIANNU CWMNI BRO FFESTINIOG

Yn y rhan hwn crynhoir llwyddiannau Cwmni Bro Ffestiniog, rhai o'r anawsterau a'r potensial i'r dyfodol. Trafodir hefyd pam y cafwyd llwyddiant cymharol yn yr ardal hon.

## 3A

## LLWYDDIANT CWMNI BRO FFESTINIOG

Disgrifiwyd eisoes yn y papur hwn sawl agwedd ar lwyddiant Cwmni Bro Ffestiniog ac fe'i crynhoir isod.

- Sefydlwyd nifer helaeth o fentrau cymunedol unigol ym Mro Ffestiniog; rhai'n hŷn a nifer yn gymharol ddiweddar ac eraill yn yr arfaeth.
- Dros amser sylweddolodd y mentrau unigol fanteision cydweithrediad rhwng y mentrau a sefydlwyd y rhwydwaith, Cwmni Bro Ffestiniog.
- Adeiladwyd ar y profiad o redeg cwmni cymunedol fel rhan o raglen Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth Cymru.
- Fel rhan o raglen Cymunedau'n Gyntaf yn yr ardal cyflogwyd nifer o bobl cymharol ifanc, brwdfrydig gyda'u gwreiddiau yn y fro. Galluogodd y cyfle hwn i weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr ennill profiad gwerthfawr fel datblygwyr cymuned.
- Yn sgil ennill profiad yn y maes datblygwyd arweinyddion cymunedol sy'n arwain yn unol ag egwyddorion datblygu cymunedol. Eu rôl yw hwyluso'r gymuned i ddatblygu'r ardal a'r gymdogaeth.
- Trwy gydweithrediad gyda llywodraeth ganol a lleol, asiantaethau datblygiad, elusennau a chwmnïau preifat llwyddwyd i ddenu buddsoddiad sylweddol i'r ardal.
- Llwyddwyd i ddenu cefnogaeth ariannol o'r tu allan i'r Fro ond yn gynyddol mae'r mentrau cymunedol yn yr ardal yn creu eu hincwm eu hunain trwy farchnata eu cynnyrch a'u gwasanaethau. Yr uchelgais yw dod yn llwyr annibynnol yn economaidd.
- Dengys y dadansoddiad a wnaethpwyd ar effeithiau economaidd mentrau cymunedol y fro bod canran uchel o'r incwm a grëwyd yn aros a chylchdroi o fewn yr ardal.
- Bellach mae'r Cwmni Bro a'r mentrau sy'n aelodau yn cyflogi tua 150 o bobl.
- Llwyddwyd i gynnal ymgynghori cyson gyda'r gymuned a chyfranogiad cynyddol pobl yr ardal.

- O ran cyfathrebu gydag ac ymysg y gymuned bu'r papur bro lleol, Llafar Bro, yn allweddol.

- Er mwyn hwyluso cyswllt gyda'r gymuned a chynyddu cyfathrebu ymysg y gymuned sefydlwyd 'BROcast Ffestiniog', sef cyfrwng darlledu digidol cymunedol sy'n dechrau darlledu ym mis Gorffennaf 2018.

- Mae'r cynnydd mewn gweithgaredd cymunedol yn golygu bod trigolion yr ardal, drwyddi draw, yn ymwneud mwy â'i gilydd ac y mae hyn yn gyffredinol yn help i gynnal ysbryd cymunedol a chymdogol a gwella ansawdd bywydau.

- Crëwyd cyfleoedd pwysig i unigolion yn yr ardal o ran gwaith, addysg ac ennill cymwysterau, gwirfoddoli a chymdeithasu.

- Gan fod cyfran uchel o weithgareddau Cwmni Bro yn y maes twristiaeth a bod i hwnnw naws cymunedol mae hyn wedi helpu creu delwedd gadarnhaol ac atyniadol o'r ardal yng ngolwg ymwelwyr.

- Mae'r datblygiadau a'r mentergarwch a feithrinir wedi denu nifer o bobl ifanc a adawodd y fro i ddychwelyd ac i gyfrannu'n gymunedol.

- Mae cynnal a datblygu cymuned mewn ardal fel hon ynddo'i hun yn help i gynnal a datblygu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg ymysg pobl leol.

- Er ei fod yn anodd ei fesur mae'n amlwg bod rhywfaint o newid diwylliannol wedi cychwyn yn yr ardal o ran mabwysiadu mentergarwch cymunedol. Hynny yw, peth newid agwedd i gyfeiriad y gymuned yn gwneud pethau trosom ein hunain, yn hytrach na dibyniaeth lwyr ar waredigaeth o'r tu allan.

- Er ei fod yn anodd i'w fesur, llwyddwyd i raddau i greu model o ddatblygiad cymuned integredig a chyfannol sy'n cyplysu elfennau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cymuned.

- Trwy brofiad gweithredu cymunedol daethpwyd i werthfawrogi'r persbectif integredig a chyfannol sy'n greiddiol i'r model hwn o ddatblygu cymunedol. O safbwynt cymuned nid oes ffiniau haearnaidd rhwng yr amgylchedd, economi, cymdeithas a diwylliant ac wrth weithio ar draws y ffiniau daw yn glir fanteision y synergiaeth sy'n nodweddu'r model hwn o ddatblygu cymunedol. Mewn geiriau eraill, mae'r cyfanwaith yn fwy na chyfanswm y rhannau.

- Credwn fod y model o ddatblygiad cymunedol integredig a chyfannol, a arloesir ym Mro Ffestiniog, yn gosod patrwm y gallasai cymunedau eraill ei efelychu ac y mae arwyddion bod hyn yn dechrau digwydd.

## 3B

## PROBLEMAU A PHOTENSIAL CWMNI BRO FFESTINIOG

Crynhoir isod anawsterau a diffygion y mae'r Cwmni Bro wedi ac yn eu hwynebu a chyffyrddir ar beth o botensial y Cwmni.

- Collodd Bro Ffestiniog ei phrif sylfaen economaidd, sef cynhyrchu llechi, bron yn gyfan gwbl ac yn sgil hynny dioddefodd bron gan mlynedd o allfudo fel bod poblogaeth Blaenau Ffestiniog erbyn hyn tua 5,500 o'i gymharu â 13,000 ym 1900. Oherwydd y dad-ddiwydiannu gadawyd yr ardal gyda phroblemau amddifadedd a thlodi.

- O'i chymharu â gweddill gorllewin Ewrop a'r Deyrnas Unedig a gweddill Cymru a Gwynedd mae Bro Ffestiniog yn dlawd yn economaidd. Mae cyfartaledd cyflog y pen ym Mlaenau Ffestiniog yr isaf yn y Deyrnas Unedig.

- I raddau helaeth mae cyfalaf preifat wedi troi ei gefn ar yr ardal ac yn gynyddol mae'r sector cyhoeddus yn crebachu. Er mor lew yw ymdrechion Cwmni Bro mae maint y dasg o adnewyddu'r ardal yn enfawr. Oni bai bod y wladwriaeth yn datblygu polisïau a chynnig cefnogaeth briodol ni all y sector cymunedol, ar ei ben ei hun, ymgymeryd go iawn â maint y broblem.

- Fel yn achos cymaint o fentrau cymunedol ansicrwydd ynglŷn â chyllid yw un o'r prif anawsterau. Yn aml bydd cyrff yn cynnig grantiau dros gyfnod cymharol fyr tra bod gwaith datblygu cymunedol yn waith tymor hir. Adeiladwyd llwyddiant Bro Ffestiniog ar sail hanes hir o weithgaredd cymunedol yn yr ardal.

- Un o egwyddorion datblygu cymunedol yw ymateb i anghenion y gymuned ond mae cyrff sy'n cynnig grantiau yn gosod eu canllawiau ar sut y defnyddir arian. Wedyn mae ceisiadau am gyllid yn cael eu warpio i ffitio canllawiau cyllidwyr ond yn aml nid yw hyn yn sgwario gydag anghenion y gymuned.

- Yn gynyddol daw incwm y mentrau sy'n aelodau o Gwmni Bro o fasnachu a'r uchelgais yw dod yn hollol annibynnol yn economaidd ond,yn y cyfamser, mae dirfawr angen cefnogaeth allanol i gyflogi gweithwyr cymunedol ac i roi hwb i fentrau newydd.

- Oherwydd natur y drefn gyllido, yn ogystal â'r llymder economaidd presennol, bu'n anodd ffeindio arian craidd i sicrhau cyflogaeth gweithwyr datblygiad cymuned ar ôl difodiant rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn yr ardal.

- Mae Cwmni Bro yn gweithredu mewn modd integredig a chyfannol ar draws ffiniau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Ar y llaw arall, mae cyrff gwladwriaethol a sefydliadol yn delio gyda'r elfennau hyn ar wahân. Golyga hyn nad yw Cwmni Bro yn aml yn ffitio yn seilos y drefn. Ffordd arall o edrych ar hyn yw nad yw'r drefn yn ffitio model Cwmni Bro o ddatblygu cymunedol.

- Mae gwahaniaeth sylfaenol rhwng y modd y mae Cwmni Bro yn gweithio a holl ddiwylliant cyrff llywodraethol a sefydliadol. Nid oes gan y cyrff hyn draddodiad o fentergarwch, yn hytrach tueddiadau biwrocrataidd, top i lawr, sy'n eu nodweddu. Ar y llaw arall, mae mentergarwch, democratiaeth, cyfranogiad y gymuned a gweithio o'r gwaelod i fyny yn hanfod datblygu cymunedol Cwmni Bro.

## 3C

## ESBONIO LLWYDDIANT CWMNI BRO FFESTINIOG

Mae nifer o ffactorau, wedi gweu trwy'i gilydd, yn gyfrifol am lwyddiant cymharol Cwmni Bro Ffestiniog. Er bod rhai o'r ffactorau hyn yn lled amlwg mae eraill yn codi o hanes a diwylliant yr ardal ac yn anos rhoi bys arnynt, heb sôn am geisio'u mesur.

- Newidiodd sylfaen economaidd Bro Ffestiniog drwy gydol yr ugeinfed ganrif, yn enwedig yn ail hanner y ganrif. Yn y gorffennol roedd y mwyafrif o weithwyr yn ymwneud â'r diwydiant llechi ac i raddau llai amaethyddiaeth ond crebachodd y rhain. Dim ond i raddau y daeth swyddi newydd i gymryd lle'r rhai a gollwyd. Yn ail hanner yr ugeinfed ganrif bu cynnydd mewn swyddi yn y sector cyhoeddus a thrawsnewidiwyd cyflogaeth marched. Bellach mae llawer mwy o amrywiaeth gweithleoedd gyda llawer yn teithio o'r Fro i'w gwaith. Mae'r newidiadau economaidd hyn yn tanseilio undod yn seiliedig ar y gweithle ac yn golygu bod y dosbarth gweithiol yn fwy gwasgaredig a rhanedig. Er hynny, mae'r etifeddiaeth gymunedol yn parhau ac yn sail gadarnhaol i weithgarwch datblygu cymunedol heddiw.

- Ffactorau eraill i'w hystyried wrth geisio cloriannu effeithiau'r gorffennol ar gymuned Bro Ffestiniog heddiw yw dylanwadau'r cyfnod dad-ddiwydiannu. Roedd y diwydiant llechi ar ei anterth ar ddechrau'r ugeinfed ganrif ond mae'r crebachu gydol y ganrif, ymhlith dylanwadau eraill, wedi gadael ei farc yn ddiwylliannol. Ar yr un llaw, datblygodd meddylfryd dibyniaeth a negyddiaeth ond, ar y llaw arall, gwelir agweddau mwy stoicaidd o'n cefnau at y wal ac 'yma o hyd ar waethaf pawb a phopeth'.

- Anodd yw cloriannu i ba raddau y mae etifeddiaeth ddiwylliannol Bro Ffestiniog yn cyfrannu i'r hyn sy'n digwydd heddiw. Er bod llawer o'r sylfaen economaidd wedi'i golli mae gwaddol y diwylliant a grëwyd yng nghyfnod llewyrchus y diwydiant llechi yn ffactor pwysig i'w ystyried wrth geisio esbonio'r sefyllfa heddiw. Roedd undod dosbarth gwaith, hawliau gweithwyr, radicaliaeth wleidyddol, undebaeth, y mudiad llafur, anghydffurfiaeth grefyddol, yr iaith a'r diwylliant Cymraeg, ymdeimlad o gymuned, cymdogaeth a thegwch cymdeithasol yn nodweddu'r gorffennol. Ffactor bwysig negyddol oedd sefyllfa economaidd israddol merched mewn cymuned lle'r oedd dynion yn ennill y cyflogau mewn diwydiant a oedd, i bob pwrpas, yn gyfyngedig i ddynion.

- Mae hen draddodiad o gymunedau lleol yn gwneud pethau trostynt eu hunain. Yn hanesyddol mae mentergarwch cymunedol wedi nodweddu Bro Ffestiniog, a chymunedau ar hyd a lled Cymru. Mentergarwch cymunedol canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a sicrhaodd bod Cymru yn un o'r gwledydd gyda'r canran uchaf o bobl a fedrai ddarllen a sgwennu; hyn ar waethaf gwladwriaeth a oedd yn elyniaethus i'r Gymraeg. Trwy fentergarwch cymunedol y tyfodd anghydffurfiaeth a'r capeli dirifedi

godwyd ar hyd a lled y wlad. Felly hefyd, neuaddau gweithwyr, clybiau o bob math, cymdeithasau adeiladu, gwasanaeth iechyd cymunedol, siopau cydweithredol, cwmniau amaethyddol cydweithredol a'r holl weithgareddau cymunedol yn ymwneud â diwylliant a chwaraeon ac yn y blaen.

- Er y collwyd llawer o'r traddodiad o fentergarwch cymunedol yng Nghymru mae gwaddol cryf yn parhau. Mae amcangyfrifon o faint a gwerth economaidd y sector gwirfoddol yng Nghymru benbaladr yn dangos hyn yn glir. Ym Mro Ffestiniog heddiw mae ystod eang o weithgareddau gwirfoddol ym meysydd crefydd, chwaraeon, papur bro, corau, bandiau, eisteddfodau, gwaith ieuenctid, amryfal elusennau, ac yn y blaen. Hyn i gyd yn etifeddiaeth a sylfaen ar gyfer yr agwedd 'newydd' at fentergarwch cymunedol y mae Cwmni Bro yn ei feithrin.

- Tasg Cwmni Bro yw ceisio deall y cymhlethdod o ffactorau diwylliannol a etifeddwyd o'r gorffennol ac sydd ar waith heddiw. Mater yw o weithio gyda'r elfennau cadarnhaol o'r gorffennol a gwrthweithio'r rhai negyddol. Credir bod modd creu diwylliant 'newydd' yn codi o'r gorau yn yr etifeddiaeth ddiwylliannol. Mae yn dal ym Mro Ffestiniog ymdeimlad cymunedol, cymdogaethol, gweithgaredd gwirfoddol a chymunedol, balchder bro, annibyniaeth barn ac agweddau ac ysbryd radical y gellir adeiladu arnynt.

- Elfen bwysig i'w hystyried wrth geisio esbonio llwyddiant Cwmni Bro yw rôl y Gymraeg a hunaniaeth gymunedol a Chymreig. Cymraeg yw iaith pob dydd mwyafrif llethol pobl yr ardal heddiw a'r Gymraeg fu prif gyfrwng trosglwyddo agweddau cymunedol o'r gorffennol. Anodd mesur dylanwad y Gymraeg ond mae aelodau Cwmni Bro yn sicr eu barn bod gwead iaith a chymuned yn allweddol yn natblygiad cymunedol yr ardal, ddoe, heddiw ac yfory.

- Yn ogystal ag allfudo bu mewnfudo sylweddol i'r ardal sy'n golygu bod tua 20% o'r boblogaeth bellach ddim yn medru'r Gymraeg. Anodd cyffredinoli ynglŷn â dylanwad y 'bobol ddŵad'; ychydig o'r oedolion sy'n dysgu'r Gymraeg ond mae nifer helaeth yn gwerthfawrogi natur gymunedol yr ardal. Gwêl Cwmni Bro yr ymwybyddiaeth gymunedol hon fel sail i gymhathu newydd ddyfodiaid mewn modd sy'n pontio rhwng y brodorion a'r mewnfudwyr ac ar yr un pryd yn cyfoethogi'r fro o ran potensial model datblygu cymunedol Cwmni Bro.

- Bu tueddiad yn y gorffennol i Gymry dwyieithog dderbyn y Saesneg fel *lingua franca* mewn sefyllfaoedd cyhoeddus ond bellach mae agwedd mwy cadarn at y defnydd o'r Gymraeg. Ar yr un pryd, mae amryfal ddarpariaeth cyfieithu yn sicrhau cyfleoedd i'r di-Gymraeg gyfranogi.

- Mae rôl ac agweddau sefydliadau presennol yr ardal yn holl bwysig. Er enghraifft, dros y cenedlaethau mynychodd y rhelyw o blant yr ardal yr un un ysgol uwchradd gyfun, sef Ysgol y Moelwyn. Golyga hyn bod rhan helaeth o drigolion yr ardal yn adnabod ei gilydd. Mae'r Ysgol yn chwarae rhan bwysig yn gymunedol heddiw ac wedi cymryd trosodd canolfan hamdden a'i rhedeg fel menter gymdeithasol. Enghraifft arall yw Cwmni Seren, sy'n gweithio'n bennaf gydag oedolion gydag anghenion ychwanegol, sydd wedi ei hen sefydlu ac wedi gosod patrwm llwyddiannus i fentrau eraill ei efelychu.

- Dros gyfnod o chwarter canrif a mwy manteisiodd Bro Ffestiniog ar nifer o raglenni a phrosiectau a arweiniwyd ac a ariannwyd gan y wladwriaeth, yn gynlluniau'r Undeb Ewropeaidd, llywodraethau

Llundain, Caerdydd neu Wynedd. Er bod y rhain yn cael eu nodweddu gan agwedd top i lawr bu rhai o'r cynlluniau yn llwyddiannus ac yn help i liniaru rhywfaint ar sefyllfa'r ardal.

- Mewn gwirionedd, dim ond gyda dyfodiad rhaglen Cymunedau'n Gyntaf a sefydlu Cwmni Cymunedol i redeg y cynllun dan reolaeth leol y gwelwyd y model presennol o ddatblygu cymunedol yn dechrau gwreiddio yn yr ardal.

- Rhoddodd Cymunedau'n Gyntaf gyfle i arweinwyr cymunedol ddatblygu; rhain yn weithwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr oedd â'u gwreiddiau yn yr ardal ac yn daer dros wella eu cymuned. Roedd nifer ohonynt yn bobl ifanc talentog sydd bellach yn brofiadol a hyderus yn y gwaith.  Mae'r math o arweinyddiaeth a fagwyd yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cymunedol. Hynny yw, mai hwyluso cyfranogiad a pherchnogaeth y gymuned yw'r nod.

- Mae ymwneud â biwrocratiaeth a meddylfryd gwrth-fentergarwch sefydliadau'r sector cyhoeddus yn aml yn rhwystredigaeth i Cwmni Bro. Ar y llaw arall, mae'n golygu bod y Cwmni yn gwerthfawrogi ac yn manteisio ar y ffaith nad yw'n gaeth i hualau biwrocrataidd. Mae natur ddemocrataidd y Cwmni a'r rhyddid sydd ganddo i feithrin dychymyg a hybu entrepreneuriaeth gymunedol yn allweddol i'w lwyddiant.

- Uchelgais Cwmni Bro yw hybu mentergarwch cymunedol a hyrwyddo newid diwylliannol ym Mro Ffestiniog. Anodd mesur newid diwylliannol ond mae'r cynnydd mewn mentrau cymunedol a'r cydweithio rhyngddynt yn dystiolaeth bod peth newid agwedd yn digwydd i gyfeiriad cymuned yn gwneud mwy trosto'i hun.

- Cafodd nifer o weithwyr a gwirfoddolwyr Cwmni Bro gyfle i astudio cyrsiau academaidd ar athroniaeth, polisïau ac ymarfer datblygu cymunedol. Bu deall theori a'i gymhwyso i ymarfer yn holl bwysig, fel y mae hefyd y cyfleoedd a grëwyd i ddysgu o brofiadau cymunedau eraill, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

- Mae dysgu o brofiadau cymunedau eraill yng Ngwynedd, Cymru ac yn rhyngwladol yn ffactor bwysig yn natblygiad Cwmni Bro. Ymdrechir hefyd i rannu profiadau Cwmni Bro Ffestiniog a'r model o ddatblygu cymunedol sy'n esblygu yn yr ardal gyda chymunedau eraill. Gwelir bod cymunedau eraill yn dechrau efelychu'r model hwn. Mae ymlediad y model yn bwysig i gymunedau unigol ond credir ei fod hefyd yn allweddol er mwyn cryfhau'r sector cymunedol yn gyffredinol. Bydd hyn yn ffactor pwysig i sicrhau'r math o bolisïau a chefnogaeth sydd eu hangen o du llywodraethau.

# RHAN 4

# GWERSI CWMNI BRO FFESTINIOG

Mae gwersi cyffredinol i'w dysgu o brofiad Cwmni Bro Ffestiniog o ddatblygiad cymunedol integredig a chyfannol. Mae'r profiad hwn ym Mro Ffestiniog yn dangos gwerth a photensial model y gellir ei efelychu gan gymunedau eraill.

Gwelir bod modd ar lefel cymuned weu trwy'i gilydd ddatblygiad amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Anodd iawn yw i gyrff canolog wneud hyn oherwydd eu bod yn gwahanu'r amgylcheddol yr economaidd a'r cymdeithasol a'r diwylliannol. Hefyd, meant yn rhannu rheolaeth a gweinyddiaeth ymhellach o fewn y gwahanol feysydd hyn. Ar lawr gwlad gwelir yn glir mor aneffeithiol a chostus yw effeithiau'r rhaniadaeth biwrocrataidd hwn.

Bu cefnogaeth sefydliadol yn allweddol i'r llwyddiant ym Mro Ffestiniog hyd yma ond dadleuir bod angen trawsnewid cefnogaeth llywodraeth ganol a lleol i gymunedau yng Nghymru os ydym am weld rhyddhau gwir botensial ein cymunedau. Bu rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn llwyddiant ym Mro Ffestiniog, yn rhannol oherwydd sicrwydd o gefnogaeth llywodraeth dros gyfnod heb fod yn rhy fyr. Felly, roedd modd cynnig sicrwydd cyflogaeth i weithwyr cymunedol ac roedd hefyd yn bosib llunio cynlluniau ar gyfer y dyfodol a mynd ati i'w gwireddu. Yn anffodus, eithriad yw cefnogaeth gadarn tymor hir; y norm yw arian tymor byr, contractau cyflogaeth dros dro a phrosiectau yn dod i ben bron cyn gynted ag y cant eu traed tanynt. Aiff cymaint o amser ac egni cymunedau i gystadlu am gyllid tymor byr gan warpio anghenion cymuned i ffitio criteria cyllidwyr, yn hytrach na'r gymuned.

Nid yn unig mae angen newidiadau llywodraethol sylfaenol o ran cefnogaeth i gymunedau ond mae hefyd angen i'n cymunedau ymrymuso a chydweithio a chymryd cyfrifoldeb dros eu ffyniant. Mae hen draddodiad o fenter gymunedol yng Nghymru ac y mae modd adeiladu ar hwn ar gyfer y cyfnod presennol a chreu, neu ail greu ar newydd wedd, ddiwylliant o fentergarwch cymunedol. I raddau, mae'r newid diwylliannol yma ar gerdded ym Mro Ffestiniog.

Yn achos mudiadau cymunedol a gweithwyr cymuned nid yw'n ddigon ymateb yn ufudd i ymgynghoriadau strategaethau niferus llywodraeth yn unol ag agenda cyfyngedig y wladwriaeth. Heb ymrwymiad a chynlluniau i weithredu does fawr o werth i ddogfennau strategaeth fel y cyfryw. Rhaid creu llais a mudiad cymunedol annibynnol yng Nghymru a fuasai'n gosod ei agenda datblygu cymunedol ei hun ac yn galw ar lywodraeth i ddilyn ei arweiniad.

Mae angen ac y mae modd creu perthynas a phartneriaeth fwy cytbwys a chreadigol rhwng y wladwriaeth a chymunedau er mwyn trawsnewid datblygiad ein cymunedau yng Nghymru. Yn greiddiol i'r materion hyn mae'r cwestiwn o ba fath o Gymru yr ydym am ei chreu. Cymru fel cymuned o gymunedau neu Gymru gyda gwladwriaeth sy'n blaenoriaethu gwasanaethu cyfalaf preifat trawswladol ac yn canoli grym yn hytrach na datganoli grym. Gwladwriaeth i'n rheoli neu wladwriaeth Gymreig sy'n gwasanaethu a rhyddhau ein

cymunedau a’n pobl? Dychmyger y trawsnewidiad pe buasai gwladwriaethau yng Nghymru a thu hwnt yn blaenoriaethu buddsoddi yn ein cymunedau, yn hytrach na rhoi cymorthdaliadau enfawr i gwmnïau cyfalafol trawswladol.

# ATODIADAU

## ATODIAD 1

## EFFEITHIAU ECONOMAIDD CWMNI BRO FFESTINIOG

### Cyflwyniad

Mae’r atodiad hwn yn addasiad o adroddiad interim, a baratowyd gan Elin Hywel, ar werthusiad o effeithiau economaidd y mentrau cymdeithasol sy'n rhan o Gwmni Bro Ffestiniog ar gymunedau Bro Ffestiniog.

Sefydlwyd Cwmni Bro i wella amodau sydd eisoes yn bodoli o fewn cymuned Bro Ffestiniog er mwyn cynyddu llwyddiant, gwerth ac effaith cymdeithasol y mentrau cymdeithasol sy’n weithredol yn lleol. Mae Cwmni Bro yn darparu strwythur ar gyfer cydweithrediad rhwng mentrau cymdeithasol heb iddynt golli dim o’u hannibyniaeth a’u hunan-benderfyniad. Mae Cwmni Bro yn creu cryfder drwy alw cyfunol ar draws y mentrau. Bydd Cwmni Bro yn creu cronfa o ddata a gwybodaeth economaidd a chymdeithasol ar gyfer Bro Ffestiniog. Mae Cwmni Bro mewn sefyllfa ddelfrydol i greu a gweithredu prosiectau risg isel, uchel eu llwyddiant, sydd yn deillio o angen go iawn ar draws y mentrau cymdeithasol, er budd ac i gefnogi'r mentrau cymdeithasol hynny.

### Natur a Chwmpas yr Ymchwil

Mae’r ymchwil hwn yn edrych ar sefyllfa bresennol mentrau cymdeithasol Bro Ffestiniog a'u heffaith ar yr economi leol. Mae’n cynnwys y mentrau cymdeithasol hynny sydd wedi ymrwymo i gydweithredu o fewn fframwaith Cwmni Bro. Bydd y gwaith yn anelu i fod yn sail i ddealltwriaeth bellach, ac i fod yn arf defnyddiol wrth gyfathrebu ag eraill. Gofynnwyd am, ac ariannwyd yr ymchwil hwn gan Busnes Cymdeithasol Cymru ac mae'n barhad ac yn ehangiad o’u hadroddiad diweddar, sef Local Fairer Stronger: Social Business Creating Growth in Wales. Yn unol â manyleb y gofynion bydd dadansoddiad o drosiant yn cael ei wneud. Bydd data am gyflogaeth, cyflenwyr ac asedau yn cael eu dadansoddi i roi dealltwriaeth o effeithiau uniongyrchol gweithgareddau'r mentrau cymdeithasol. Disgwylir darlun tameidiog yn dangos effeithiau economaidd cadarnhaol ac enghreifftiau o arian yn cael ei golli o’r ardal leol. Bydd hyn yn cael ei gymharu â dadansoddiad o gymhellion a bwriadau y tu ôl i'r penderfyniadau a wneir gan y mentrau cymdeithasol. Fel parhad o'r adroddiad, 'Local, Fairer, Stronger,' bydd hyn yn caniatáu ystyriaeth o sut y gall twf busnesau cymdeithasol a gynhelir trwy fentrau cymdeithasol gael eu 'hybu a'u cefnogi'.

### Adroddiad Interim

Yn yr adroddiad interim hwn ceir gwerthusiad o effaith economaidd y mentrau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â Chwmni Bro ar gymuned Blaenau Ffestiniog ac ardaloedd cyfagos.

Mae cydweithredu a’r weledigaeth a rennir yn gonglfeini i brosiect Cwmni Bro ac wedi bod yn allweddol i’r ymchwil. Rydym wedi wynebu cyfyngiadau amser a chymhlethdod niferoedd. Rydym wedi plethu

meddalwedd gwahanol, dulliau gwahanol ar gyfer dadansoddi data a gwahanol gyfnodau i gynhyrchu data cymharol dros yr un cyfnod. Gwnaed hyn o fewn 7 wythnos dros gyfnod y Nadolig. I ddechrau dyluniwyd taflenni casglu data i fodloni manylebau'r ymchwil. Fodd bynnag, fe ddaeth yn amlwg wrth ystyried yr amserlen dynn na fyddai hynny'n '*faite accompli'*. Roedd yn angenrheidiol i ni weithio gyda'r data a'r wybodaeth oedd ar gael er mwyn cael canlyniad interim cywir a defnyddiol. Enghraifft o hyn fyddai ein diffiniad o ardal leol. Cyfeiriodd llawer o fanyleb yr ymchwil at ardal y cod post fel yr ardal economaidd swyddogaethol ar gyfer y gwaith. Oherwydd dwysedd isel y boblogaeth a gweithgaredd economaidd yn yr ardal cod post nid oedd y canlyniadau o reidrwydd yn ystyrlon. Fe wnaethom edrych ar atebion a roddwyd gan y cyfranogwr i'r cwestiwn: 'Wrth feddwl am eich economi leol lle byddwch chi yn ei gynnwys?' Bu i'r holl atebion ehangu'r ardal leol ymhellach na LL41. Fe edrychom ar yr hyn sy'n ystyrlon ar gyfer y gwahanol elfennau megis lleoliad daearyddol y gweithlu a chyflenwyr. O ganlyniad, newidiwyd ein diffiniad o ardal leol:

Trosiant / Cynhyrchu incwm: Bro Ffestiniog Roedd angen i'r ardal adlewyrchu lleoliad y mentrau.

Cyflogaeth: Cod post - LL41

Cyflenwyr: 25 milltir. Roedd yr angen i adlewyrchu perthnasau â chyflenwyr mewn ardaloedd penodol fel Porthmadog (12.5 milltir), Harlech (14.3 milltir), Penygroes (14.6 milltir) a thuag at Gonwy yn agwedd bwysig wrth ffurfio'r syniad o 'ardal leol' wrth ystyried cyflenwyr. Roedd y data a oedd yn barod wedi ei dderbyn yn dangos radiws cod post, radiws 10 milltir, radiws 25 milltir, 150 milltir ayb.

Asedau: Cod post - LL41 Roedd darparu dull hyblyg sy'n adlewyrchu pwrpas yr ymchwil yn caniatáu canlyniadau ystyrlon y gellid eu datgan yn hyderus i greu darlun realistig o effaith economaidd y mentrau cymdeithasol yn eu hardal leol. Mae'r ymchwil yn gredyd i Gwmni Bro ac yn brawf o'i allu i lwyddo.

## Canlyniadau

At ddiben yr adroddiad interim hwn edrychom ar ba ddata sydd wedi ei ddychwelyd yn gyson gan y mentrau a beth mae hyn yn ein galluogi i ddweud am effaith y mentrau cymdeithasol ar gymuned Bro Ffestiniog. Gallwn ddweud: Cynhyrchodd pob £1.00 o incwm 'cefnogol' a dderbyniwyd ar ffurf grantiau neu fenthyciadau £1.04 o werthiannau. Mae cyfanswm y trosiant a'r incwm cefnogol yn caniatáu gwariant sy'n cadw arian yn lleol waeth beth fo'r cyfyngiadau ar hunan-benderfyniad oherwydd cyflwr y farchnad a lleoliad y mentrau. Y gyfradd ymateb i'n ceisiadau data ar incwm oedd 70%. Roedd ein mentrau mwyaf o fewn y 70% hynny. Oherwydd hyn roeddem yn hyderus bod ein dadansoddiad yn rhoi darlun adlewyrchol ar draws y mentrau cymdeithasol. Er mwyn dilyn siwrnai pob £1.00 o incwm cefnogol edrychom ar ba ddata cymharol y gellid ei gynhyrchu o'r mentrau a oedd wedi dychwelyd y data incwm yn unig.

Nid yw'r data ar asedau, cadw asedau a throsglwyddo asedau i reolaeth leol wedi ei gynnwys ar hyn o bryd.

Er mwyn canfod lefel y gwariant ar gyflogaeth a oedd yn aros yn y LL41 edrychom ar tâl 'cymryd gartref' ein trigolion lleol yn y flwyddyn ariannol 16/17. Dangosodd ein canlyniadau fod £1,587,000.00 yn cael ei gadw yn LL41. Roedd hyn yn cynrychioli 53% o gyfanswm costau cyflogaeth.

Roedd y data ar gyflenwyr yn dangos gwariant lleol yn cynrychioli 46% o'r cyfanswm. Dylid nodi nad oedd yn bosibl lleoli pob cyflenwr, roedd 13% o'r cyfanswm gwariant yn anhysbys ac fe'i tynnwyd o'r cyfrifid. Mae'n

gasgliad interim defnyddiol i'r ymchwil ac yn ein galluogi i ddatgan ffeithiau sy'n dangos agweddau o effaith mentrau cymdeithasol Cwmni Bro ar gymuned Bro Ffestiniog.

Yn nesaf byddwn yn edrych eto ar y data sylfaenol i greu darlun fwy cyflawn. Byddwn yn defnyddio'r data ansoddol a dderbyniwyd o'i gymharu â'n data meintiol i nodi bylchau rhwng bwriad a gweithredoedd. Byddwn hefyd yn cymharu ein canfyddiadau gyda’r rhai a wneir gan eraill os yn bosibl. Bydd canlyniadau'r ymchwil yn cael ei ddefnyddio gan ein cyfranogwyr mewn gweithgor a fydd yn trafod sut y bydd Cwmni Bro yn ymateb i'r canfyddiadau. Bydd y fframwaith a ddarperir gan Cwmni Bro yn defnyddio'r data hwn i ysgogi a chefnogi mentrau cymdeithasol cysylltiedig Bro Ffestiniog.

## ATODIAD 2

## SEFYDLIADAU A PHARTNERIAID

Arloesi Gwynedd Wledig (LEADER): www.arloesigwyneddwledig.com

Busnes Cymdeithasol Cymru: www.businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cymru

BROcast Ffestiniog: facebook.com/BROcastFfestiniog

Canolfan Cydweithredol Cymru: www.cymru.coop

Gwesty Seren: www.gwestyseren.co.uk

Pengwern Cymunedol: www.ypengwern.co.uk

Sylfaen Cymunedol: www.sylfaencymunedol.org

Talwrn: www.talwrn.org.uk/

www.seren.org

www.cellb.org

www.gwestyseren.org

www.anturstiniog.com

www.drefwerdd.cymru

www.barnardos.org.uk/cabanbach.htm

www.orielcafficroesoratcnicht.co.uk

**ATODIAD 3**

**CYSWLLT**

Cwmni Bro Ffestiniog,
49 Stryd Fawr,
Blaenau Ffestiniog,
Gwynedd. LL41 3AG

CwmniBro@CwmniBro.Cymru
07799 353588

***Diweddarwyd y fersiwn hwn:***

***29-09-18***